# COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU A PHRIF GWNSTABL DE CYMRU

## ARCHWILIO CYFRIFON 2017/2018

Rhoddir rhybudd drwy hyn yn unol ag Adrannau 29 a 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ac fel y manylir ymhellach yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018):

1. O 13 Mehefin 2018 hyd at 10 Gorffennaf 2018 yn gynwysedig, rhwng 10.00 a.m. a 5.00 p.m. (Dydd Llun i Ddydd Iau yn unig) a rhwng 10.00 a.m. a 4.00 p.m. (Dydd Gwener yn unig), gall unrhyw un sydd â diddordeb, drwy wneud cais i'r Adran Gyllid, Pencadlys yr Heddlu, Penybont-ar-Ogwr, arolygu a gwneud copïau o gyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a chyfrifon Prif Gwnstabl De Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ynghyd â phob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n berthnasol iddynt.

2. Am 9.00 a.m. ar 11 Gorffennaf 2018 neu wedi hynny, bydd yr Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett, o 24 Cathedral Road, Caerdydd CF11 9LJ ym Mhencadlys yr Heddlu, Penybont-ar-Ogwr, (ac wedi hynny hyd nes y bydd yr Archwilydd yn ardystio bod yr Archwiliad wedi'i gwblhau), ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol o'r ardal y mae cyfrifon o'r fath yn berthnasol iddo, neu ei gynrychiolydd/ei chynrychiolydd, yn rhoi cyfle iddynt ei holi am y cyfrifon a gall unrhyw etholwr o'r fath neu ei gynrychiolydd/ei chynrychiolydd ddod gerbron yr Archwilydd a chynnig gwrthwynebiadau:

    i. ynglŷn ag unrhyw fater y gallai'r Archwilydd weithredu arno yn unol ag Adrannau 17 neu 18 o'r Ddeddf (sef eitem cyfrif anghyfreithlon, methu ag ystyried swm, neu golled neu ddiffyg a achoswyd gan gamymddwyn bwriadol)

    ii. ynglŷn ag unrhyw fater y gallai'r Archwilydd adrodd arno er lles y cyhoedd o dan Adran 22 o'r Ddeddf.

3. Ni ellir gwneud unrhyw wrthwynebiad o'r fath oni bai bod yr Archwilydd wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig yn flaenorol o'r gwrthwynebiad a sail y gwrthwynebiad; a bod copi o rybudd o'r fath yn cael ei anfon at y sawl a enwir isod.

**DARREN GARWOOD-PASK**
Prif Swyddog Cyllid Dros Dro
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu
a Throseddu De Cymru

**UMAR HUSSAIN**
Prif Swyddog Cyllid
Heddlu De Cymru

Pencadlys yr Heddlu De Cymru
PENYBONT-AR-OGWR
CF31 3SU